OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 2916 (Cy.213)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2005

Wedi'u gwneud - -	*18 Hydref 2005*
Yn dod i rym - -	*31 Hydref 2005*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 138(7) a 144 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) a pharagraff 5 o Atodlen 8 iddi ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), a thrwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 19, 20, 210(7) a 214 o Ddeddf Addysg 2002(**3**) mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2005, ac maent yn dod i rym ar 31 Hydref 2005.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

ystyr "y Prif Reoliadau" ("*the Principal Regulations*") yw Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001(**4**);

ystyr "Rheoliadau 2005" ("*the 2005 Regulations*") yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005(**5**).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio'r Prif Reoliadau

2. Diwygir y Prif Reoliadau fel a ganlyn.

3. Yn rheoliad 3(1)—

(a) o flaen y diffiniad o "tir a ariennir yn gyhoeddus" mewnosoder y diffiniad canlynol—

(**1**) 1998 p.31. I gael y diffiniad o "regulations", *gweler* adran 142(1).
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672.
(**3**) 2002 p.32. I gael y diffiniad o "regulations", *gweler* adran 212(1).
(**4**) O.S. 2001/2678 (Cy.219).
(**5**) O.S. 2005/2914 (Cy.211).

"ystyr "Rheoliadau 2005" ("*the 2005 Regulations*") yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005;";

(b) yn lle'r diffiniad o "Atodlen 12 addasedig i'r Ddeddf" rhodder yn y man priodol yn ôl trefn yr wyddor y diffiniad canlynol—

"ystyr "y Rheoliadau 2005 addasedig" ("*the modified 2005 Regulations*") yw Rheoliadau 2005 fel y maent yn effeithiol gydag addasiadau yn rhinwedd rheoliad 12 o'r Rheoliadau hyn ac Atodlen 3 iddynt;".

4. Yn rheoliad 10(1), rhodder y geiriau "Rheoliadau 2005 addasedig" yn lle'r geiriau "Atodlen 12 addasedig i'r Ddeddf".

5. Yn lle rheoliad 11 rhodder y canlynol—

"**11.** Rhaid i'r offeryn llywodraethu newydd gael ei wneud yn unol â gofynion Rhan 5 o'r Rheoliadau 2005 addasedig a chydymffurfio â'r gofynion hynny.".

6. Yn lle rheoliad 12 rhodder y canlynol—

"**12.** Mae Rheoliadau 2005 yn gymwys i'r offeryn llywodraethu newydd y cyfeirir ato yn rheoliad 11 gyda'r addasiadau a nodir yn Atodlen 3.".

7. Yn rheoliad 13(1), rhodder y geiriau "Rheoliadau 2005 addasedig" yn lle'r geiriau "Atodlen 12 addasedig i'r Ddeddf".

8. Yn rheoliad 15(4), rhodder y geiriau "noddwyr-lywodraethwyr" yn lle'r geiriau "llywodraethwyr cyfetholedig ychwanegol".

9. Ar ôl rheoliad 15, mewnosoder y canlynol—

"**15A.** At ddibenion rheoliadau 14 a 15, pan nad yw'r awdurdod addysg lleol wedi gwneud offeryn llywodraethu ar gyfer y corff llywodraethu cyfredol yn unol â Rheoliadau 2005, mae'r categorïau cyfatebol o lywodraethwr fel a ganlyn—

Categori llywodraethwr cyfredol	*Categori llywodraethwr o dan Reoliadau 2005*
Llywodraethwr cyfetholedig	Llywodraethwr cymunedol
Llywodraethwr cynrychioliadol	Llywodraethwr cynrychioliadol
Llywodraethwr sefydledig (gan gynnwys llywodraethwr sefydledig *ex officio*)	Llywodraethwr sefydledig
Llywodraethwr AALl	Llywodraethwr AALl
Rhiant-lywodraethwr	Rhiant-lywodraethwr
Llywodraethwr partneriaeth	Llywodraethwr partneriaeth
Staff-lywodraethwr	Staff-lywodraethwr
Athro-lywodraethwr	Athro-lywodraethwr
Pennaeth (llywodraethwr *ex officio*)	Pennaeth (llywodraethwr *ex officio*)"

10. Yn lle Atodlen 3 rhodder yr Atodlen 3 ddiwygiedig a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**).

D. Elis-Thomas

18 Hydref 2005 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**6**) 1998 p.38.